Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Cynllun Ariannol

# 2019-22

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rôl a Swyddogaeth y Comisiynydd | 3 |
| Llywodraethu a Chraffu | 3 |
| Ymateb i bwysau ariannol | 4 |
| Cydweithio â sefydliadau eraill | 5 |
| Cynllun Strategol 2019-2023 | 5 |
| Atodiad A  Amcangyfrif Blynyddol 2019-2023 | 7 |
| Atodiad B Cronfeydd Wrth Gefn | 11 |

## Cyflwyniad

Fel Comisiynydd, fi yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac mae gofyn i mi gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'n cynnwys amcangyfrif o'r gwariant ar sail adnoddau a'r cyllid arian parod net y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2019-20 wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Hefyd, darparwyd amcangyfrif dangosol o'r adnoddau a fydd yn ofynnol yn y blynyddoedd i ddod i hwyluso proses gynllunio gyllidebol Llywodraeth Cymru.

## Fy Rôl a'm Swyddogaeth fel Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Undyn dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyletswyddau statudol y swydd yw:

- hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- hybu'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog yr arferion gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru; ac
- adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael ei hariannu gan Weinidogion Cymru, ond mae'n gweithredu'n annibynnol arnynt.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi gyflwyno Adroddiad Blynyddol am fy ngweithgareddau i Weinidogion Cymru.

## Llywodraethu a Chraffu

Wrth gyflawni fy swyddogaethau statudol, rwy'n gyfrifol, fel Swyddog Cyfrifyddu, am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer rheoli a chadw trefn ar adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd.

Fel Corfforaeth Undyn a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo'r gwaith o gyflawni fy swyddogaethau i unrhyw aelod o'r staff. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel sydd i'w weld mewn cyrff cyhoeddus eraill,

mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi yn fy rôl Lywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn fy nghynorthwyo, fel Swyddog Cyfrifyddu, â gwaith monitro ac adolygu rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheoli mewnol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod ac mae'n cyfarfod yn chwarterol gyda mi, fy Nghyfarwyddwyr ac archwilwyr mewnol ac allanol.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi gyflwyno Adroddiad Blynyddol am fy ngweithgareddau i Weinidogion Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn craffu ar fy ngwaith, ac mae'n cael ei drafod yng nghyfarfodydd llawn y Senedd. Hefyd, bydd fy archwilwyr mewnol yn craffu ar fy mhrosesau rheoli a llywodraethu yn annibynnol.

Caiff y Cyfrifon Blynyddol eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi barn ddiamod am bob cyfnod cyfrifo o'r adeg y sefydlwyd y swydd yn 2008-09 tan 2017-18 ac ni chodwyd dim pryderon sylweddol yn y Llythyrau Rheoli Blynyddol.

Nid yw'r archwilwyr mewnol erioed wedi codi pryderon o bwys, ac eir ati i weithredu ar unrhyw argymhellion.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r broses archwilio allanol a mewnol bob blwyddyn ac yn fodlon ar berfformiad y naill a'r llall.

## Ymateb i bwysau ariannol

Pan ffurfiwyd y sefydliad yn 2008, cytunodd Llywodraeth Cymru ar ddyraniad ariannol tair blynedd, sef £5 miliwn gan ddyrannu £1.8 miliwn yn 2010-11, sef y cyllid arian parod net gofynnol ar gyfer sefydliad sy'n gweithredu'n llawn.

Yn 2015, rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i ddarparu cyllideb ddangosol blwyddyn i'r dyfodol, a chanlyniad hynny oedd bod y gwaith o lunio rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn fwy cymhleth. Wrth hysbysu am fy nghyllideb 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi adfer cyllideb ddangosol am flwyddyn. Ers hynny, mae'r gyllideb ddangosol wedi cael ei thynnu o gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019/2020. Fe helpodd y gyllideb ddangosol i sicrhau bod gweithgareddau cysylltiedig â'm swyddogaethau yn cael eu cynnal o un flwyddyn i'r llall; fodd bynnag, nid oedd hon yn sefyllfa ddelfrydol. Byddai dychwelyd i gyllideb ddangosol am dair blynedd

yn help mawr o ran rheoli risg, a byddai'n cefnogi cyfnod cynllunio strategol o bedair blynedd yn well.

Nid yw swyddfa'r Comisiynydd wedi gallu osgoi effaith y mesurau cyni gan fod y cyllid yn ystod 2016-17 wedi ei ostwng i £1.545 miliwn. Yn dilyn y gostyngiad hwn yn y dyraniad, mae'r Comisiynydd wedi llwyddo i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy gynnal adolygiad manwl o fodel gweithredu a strwythur y sefydliad.

Fe wnaeth yr adolygiad leihau'r adnoddau sydd ar gael i ymgymryd â rôl y Comisiynydd. Fodd bynnag, rwyf wedi penderfynu na fyddag yn galli cynnal rhagor o ostyngiadau rheolaidd yn y cyllid heb effeithio'n anorfod ar fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau statudol yn effeithiol.

## Cydweithio â sefydliadau eraill

Byddaf yn parhau i ymgynghori â'r prif randdeiliaid a phartneriaid mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector drwy osgoi dyblygu gwaith pobl eraill, a thrwy hynny sicrhau cymaint o fudd ag sy'n bosibl o'm hadnoddau.

Bydd fy staff yn parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod arferion da'n cael eu rhannu a manteisio ar gymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd i gydweithio.

Byddaf yn dal i weithio mewn cysylltiad agos ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Enghreifftiau o gydweithio o'r fath yn y gorffennol yw cyd-gaffael gwasanaethau archwilio mewnol, cynnal gweithdai ymarfer gorau ar y cyd a rhannu ystafelloedd cyfarfod a threfniadau gweithio ar wahanol ddesgiau ym mhob un o'n swyddfeydd yng Nghymru.

## Cynllun Strategol 2019 - 2023

Gan mai ar 20 Awst 2018 y dechreuais ar fy swydd fel Comisiynydd, rwyf wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fy nghynllun pedair blynedd, a fydd yn pennu fy mlaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd o Ebrill 2019 ymlaen. Rwy'n ymgynghori â phobl hŷn a rhanddeiliaid amrywioli ddatblygu fy mhrif flaenoriaethau ac, yn enwedig, sut i sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau yn y byd i heneiddio. O ganlyniad, nid wyf mewn sefyllfa i amlinellu manylion fy nghynllun strategol ar hyn o bryd, ond bydd y cynllun yn:

- Ceisio gwella ansawdd bywyd y bobl fwyaf agored i niwed, y rhai nad ydynt mor hawdd i'w clywed, a'r rhai sydd mewn perygl
- Helpu pobl hŷn i heneiddio'n dda, gan gydnabod y cyfraniad y gall pobl hŷn ei wneud i'n cymdeithas a'r cyfraniad sy'n cael ei wneud ganddynt
- Ymateb i'r prif faterion a ddygwyd i'm sylw gan bobl hŷn, yn ogystal â'r materion hynny y gwelwyd tystiolaeth ohonynt drwy ymchwil
- Cydnabod ac ymateb i amrywiaeth y boblogaeth hŷn, a'r anghydraddoldebau o fewn y boblogaeth
- Gallu cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i bob person hŷn

Rwy'n arwain tîm o 20 aelod o staff a bydd fy nghynllun strategol yn cael ei weithredu'n bennaf gan y staff hyn. Byddaf hefyd yn rhoi contract i ddarparwyr allanol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd perthnasol sydd ei angen, er enghraifft i wneud ymchwil mewn maes penodol, neu ddarparu cyngor arbenigol ar feysydd blaenoriaeth.

Bydd fy nghynllun strategol yn seiliedig ar barhad yr £1.545 miliwn o gyllid gan Weinidogion Cymru, a fydd yn fy ngalluogi i sicrhau newid sylweddol i bobl hŷn a dechrau cyflawni fy nod o sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau yn y byd i heneiddio.

## Atodiad A

## Amcangyfrif Blynyddol 2019-20

Bydd y Comisiynydd yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o’r adnoddau presennol.

Amlinellir Amcangyfrif 2019-20 a’r gyllideb ddangosol ar gyfer 2020-22 isod:

| **Disgrifiad**<br>***Ffigurau dangosol yn unig** | **Amcangyfrif**<br>**2019-20**<br>**(£)** | **Amcangyfrif**<br>**2020-21***<br>**(£)** | **Amcangyfrif**<br>**2021-22***<br>**(£)** |
|---|---:|---:|---:|
| **Gwariant:** | | | |
| Costau cyflogaeth | 1,157,000 | 1,111,000 | 1,124,000 |
| Llety | 145,000 | 147,000 | 149,000 |
| Offer TGCh a’u cynnal a’u cadw | 54,000 | 53,000 | 60,000 |
| Ffioedd a gwasanaethau proffesiynol | 81,000 | 79,000 | 81,000 |
| Costau rhedeg eraill | 64,000 | 52,000 | 57,000 |
| Rhaglen | 110,000 | 100,000 | 90,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,611,000** | **1,542,000** | **1,561,000** |
| Llai: | | | |
| Defnyddio balans arian parod a ddygwyd ymlaen | (63,000) | 7,000 | (18,000) |
| Symudiadau heb fod yn arian parod | (3,000) | (4,000) | 2,000 |
| **Gofyniad arian parod net** | **1,545,000** | **1,545,000** | **1,545,000** |

Mae cyllideb y Comisiynydd hefyd yn ariannu costau rhedeg y swyddfa. Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld yn y Cyfrifon Blynyddol, sy’n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan http://www.olderpeoplewales.com

Nodiadau:

## Costau cyflogaeth

Costau staff sy'n ffurfio'r gyfran fwyaf o wariant y Comisiynydd oherwydd mae gallu cadw a recriwtio staff da i gyflawni'r cynllun strategol yn bwysig dros ben.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn cyflogi 20 o staff. Mae costau aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn. Mae costau cyflogaeth yn cynnwys yr holl wariant ar gyflogau, hyfforddiant, costau teithio, archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, costau recriwtio a chyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr.

Ym Medi 2018, hysbyswyd y Comisiynydd bod cyfraddau cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn debygol o gynyddu 8% yn Ebrill 2019. Os bydd y cynnydd hwn yn digwydd, amcangyfrifir y bydd y gost ychwanegol yn £60,000 y flwyddyn, ar sail y strwythur staff presennol. Mae Atodiad A yn cynnwys y £60,000 ychwanegol y flwyddyn yn y costau cyflogaeth, felly mae cyllideb y rhaglen waith flynyddol wedi'i chwtogi £60,000 y flwyddyn.

Talwyd dyfarniad costau byw gwerth 1% i'r staff yn 2017-18, yn unol â chyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2018-19, dyfarnwyd codiadau cynyddrannol gan fod y rhain wedi'u nodi mewn contractau. At ddibenion cyllidebu'n unig, tybiwyd y bydd angen caniatáu ar gyfer dyfarniad cyflog blynyddol yn unol â chwyddiant o 1% o fewn y costau cyflogaeth; nid ydym wedi ymrwymo i dalu'r dyfarniadau hyn yn 2018-19 ac ni fydd y penderfyniad yn cael ei wneud nes bydd cytundeb ar ddyraniad 2019-20. Ni fydd modd cynyddu'r ganran hon heb leihau nifer y staff a'r costau sylfaenol.

## Llety

Mae costau llety a swyddfa yn cynnwys gwariant ar rent, tâl gwasanaeth, ardrethi, diogelwch, cyfleustodau ac yswiriant.

Mae'r Comisiynydd wedi llofnodi cytundeb prydles newydd am gyfnod o bum mlynedd o 5 Awst 2018 i 4 Awst 2023; mae opsiwn i dorri'r brydles ym mis Awst 2021.

Yn ôl rhagolwg mis Ebrill 2018, 2.4% yw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer 2018, a chododd CPI Ebrill 0.1%. Bydd y Comisiynydd yn monitro effaith unrhyw amrywiadau chwyddiannol mewn prisiau yn y

dyfodol gan amsugno unrhyw bwysau ychwanegol ar gostau a fydd yn codi.

### Offer TGCh a'u cynnal a'u cadw

Mae gan y Comisiynydd gynllun TGCh tymor canolig a fydd yn cynnal y systemau presennol i'r dyfodol ar sail adnewyddu a gwaith cynnal a chadw brys a hanfodol. Nid yw'r Comisiynydd yn cael dyraniad cyfalaf ar wahân a chaiff hyn ei ariannu o'r prif ddyraniad arian parod.

Mae'r Comisiynydd yn buddsoddi'n barhaus er mwyn diweddaru ei seilwaith TGCh, gan sicrhau bod y systemau'n parhau'n effeithlon ac yn gallu gwrthsefyll bygythiadau allanol. Mae'r costau hyn yn cael eu dibrisio neu eu hamorteiddio dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae rhaglen dreigl ar waith i adnewyddu caledwedd TGCh dros yr 1-5 mlynedd nesaf ac mae hyn yn seiliedig ar angen hanfodol y busnes a'r cynnydd mewn gofynion diogelwch data a TGCh.

Mae'r costau refeniw yn cynnwys y gost o adnewyddu gwarantau a thrwyddedau meddalwedd a chaledwedd, cost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw TGCh, Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Band Eang PSBA a Chytundeb Lefel Gwasanaeth ar wahân ar gyfer cronfa ddata rheoli cofnodion y Comisiynydd.

Yn ystod 2017-18, mae systemau TGCh y Comisiynydd wedi cael eu gwirio'n annibynnol a rhoddwyd sicrwydd bod y systemau'n cydymffurfio â'r Cynllun 'Cyber Essentials Plus', cynllun ardystio seiberddiogelwch sy'n cael ei gefnogi gan y llywodraeth ac sy'n rhoi sylfaen dda o seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bum mesur rheoli pwysig a all, os ydynt yn cael eu gweithredu'n iawn, atal tua 80% o ymosodiadau seiber.

### Ffioedd a gwasanaethau proffesiynol

Mae ffioedd a gwasanaethau proffesiynol yn cynnwys gwariant ar ffioedd archwilio, costau cyfieithu, ffioedd cyfreithiol, monitro gwleidyddol a monitro'r cyfryngau. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn aros yn sefydlog yn y tymor canolig, ond dylid nodi nad yw'n bosibl rhagweld ffioedd cyfreithiol yn gywir gan nad yw'n bosibl rhagweld pa bryd y bydd arnom angen cyngor.

### Costau rhedeg eraill

Mae'r costau rhedeg eraill yn cynnwys defnyddiau traul swyddfa megis argraffu, ffonau, papur ac ati a phostio yn ogystal â chostau dibrisio ac amorteiddio. Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu dull darbodus o

gaffael defnyddiau traul swyddfa a bydd yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn y maes hwn. Mae'r Comisiynydd yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol lle mae hynny'n ymarferol.

### Rhaglenni

Bydd gwariant ychwanegol yn digwydd ar sail anghylchol i gasglu tystiolaeth, i wneud ymchwil ac i gyhoeddi a hyrwyddo canfyddiadau a chanllawiau. Dyrennir hyn ar sail ddewisol gan y Comisiynydd ac fe'i defnyddir i gefnogi cynllun strategol y Comisiynydd a'r rhaglen waith flynyddol.

### Symudiadau heb fod yn arian parod

Mae a wnelo hyn â'r costau hynny a gaiff eu cofnodi yn y cyfrif gwariant ond nad oes taliad arian parod wedi'i wneud e.e. symudiad ar gredydwyr a debydwyr, yn ogystal â chostau dibrisio ac amorteiddio.

### Balansau arian parod

Y dybiaeth yw y caiff unrhyw falansau arian heb eu defnyddio ar ddiwedd 2018-19 eu dwyn ymlaen i gefnogi gweithgareddau yn 2019-22.

## Atodiad B

### Cronfeydd Wrth Gefn

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am ddefnyddio'r arian cyhoeddus y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei roi i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn ffordd ddarbodus a phriodol.

Mae gennyf gynllun ariannol tair blynedd treigl a fydd yn sail i'm blaenoriaethau strategol. Cefnogir y cynllun hwn gan gronfeydd wrth gefn ac mae'n fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol a sicrhau parhad busnes. Yn ogystal, mae'n fy ngalluogi i ddal i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

Yn y tabl isod, ceir rhagamcan o falansau'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac ar gyfer y tair blynedd nesaf.

| | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) | 2021-22 (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Balans agoriadol y cronfeydd wrth gefn** | 207,000 | 158,000 | 92,000 | 95,000 |
| **(Gorwariant) /Tanwariant** | (49,000) | (66,000) | 3,000 | (16,000) |
| **Balans terfynol y cronfeydd wrth gefn** | 158,000 | 92,000 | 95,000 | 79,000 |

Nodwyd tri rheswm penodol dros gadw cronfeydd wrth gefn:

- Er mwyn cynnal sefydlogrwydd busnes a sefydlogrwydd ariannol cyffredinol y sefydliad (y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol), ac, yn benodol, oherwydd bod angen gallu ymateb i gostau gweithredu na ragwelwyd ac, yn bwysicach fyth, gweithredu ar unrhyw faterion pwysig neu faterion brys na chynlluniwyd ar eu cyfer sy'n cael eu dwyn i'm sylw. Mae'n bur debyg y bydd costau ychwanegol o'r fath yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol, ond maent hefyd yn anodd iawn eu mesur.

- Er mwyn ymdrin â risgiau penodol a nodwyd ac sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac er mwyn darparu

sicrwydd ariannol yn erbyn y risgiau hynny. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn fy nghynllun ariannol tymor canolig gan fod y rhain yn sicr, neu'n debygol iawn, o godi eu pennau.

- At ddibenion cynllunio ariannol strategol, gan fy ngalluogi i grynhoi cyllid ar gyfer gwariant mwy sylweddol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn adlewyrchu'r angen i ddarnau o waith rychwantu cyfnodau diwedd blwyddyn ariannol.